


# CYNGOR TREF PORTHMADOG



## COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL MAI 14 2024

1.5.24 **Presennol:- Cyngorwyr :-** Aled Griffith ( Cadeirydd); Sandra Bodden Jones; Dr Melfyn Edwards; Alwyn Gruffydd (Is-Gadeirydd); John Gwynedd Roberts; Carol Hayes; Gwilym Jones; Michael Roberts  
Marian Roberts ( Clerc)  
**Absennol :-** Cyng Llywelyn Rhys

2.5.24 **Ymddiheuriadau :-** Cyng Connor Westwood;

### **3.5.24 Ethol Cadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2024/2025**

**Penderfynwyd** yn unfrydol i ethol Cyng Aled Griffith yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2024/2025 yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Carol Hayes yn eilio.

### **4.5.24 Ethol Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2024/2025**

**Penderfynwyd** yn unfrydol i ethol Cyng John Gwynedd Roberts yn Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2024/2025 yn ôl cynnig Alwyn Gruffydd, Cyng Carol Hayes yn eilio.

### **5.5.24 Ethol aelodau o'r Pwyllgorau canlynol am y flwyddyn 2024/2025**

- **Pwyllgor Cyllid / Pwyllgor Datblygu ac Eiddo**

**Penderfynwyd fel a ganlyn ar gyfer Aelodaeth 2024/2025:-**

Cadeirydd y Cyngor	-	Cynghorydd Aled Griffith
Is-Gadeirydd y Cyngor	-	Cynghorydd John Gwynedd Roberts
Ward Tremadog		Cynghorydd Alwyn Gruffydd
Ward Ynys Galch -		Cynghorydd Cyng Carol Hayes
Ward Gest	-	Cynghorydd Dr Melfyn Edwards
Ward Ynys Galch -		Cynghorydd Gwilym Jones
Ward Morfa Bychan	-	Cynghorydd Connor Westwood
Ward Gorllewin	-	Cynghorydd Michael Roberts

- **Pwyllgor Staffio**

**Penderfynwyd fel a ganlyn ar gyfer Aelodaeth 2024/2025 :-**

Cadeirydd y Cyngor – Cyng. Aled Griffith  
Is-Gadeirydd y Cyngor – Cyng. John Gwynedd Roberts  
Cyng Gwilym Jones

- **Pwyllgor Nadolig**

**Penderfynwyd :-** gohirio'r penderfyniad tan y Materion i'w dwyn gerbron yn y Cyfarfod Rheolaidd.

### **6.5.24 Ethol Cynrychiolwyr ar bwllgorau allanol**

**Penderfynwyd fel a ganlyn ar gyfer Aelodaeth 2024/2025:-**

Is Bwyllgor Harbwr Porthmadog - Cyng Dr Melfyn Edwards (Cyng Gwilym Jones eisoes yn Gadeirydd Pwyllgor yr Harbwr)

Ymddiriedolaeth Rebecca - Cyng. Gwilym Jones  
Y Ganolfan - Cyng Michael Roberts  
Amgueddfa Forwrol Porthmadog - Cyng Carol Hayes  
Clwb Chwaraeon Madog - Cyng Alwyn Gruffydd  
Y Ganolfan Gyngori (Cangen Caernarfon) - Cyng Carol Hayes  
Caru Port - Cyng Michael Roberts  
Pwyllgor Efeillio - Cyng Alwyn Gruffydd  
Pwyllgor Adran Dwyfor (Un Llais Cymru)- Cyng Alwyn Gruffydd  
Cyng Gwilym Jones

#### **7.5.24 Dogfennau Rheolaeth – copi electronig wedi ei rannu - un copi papur ar y bwrdd i'w arwyddo gan y Cadeirydd.**

Angen ystyried a derbyn y dogfennau isod yn flynyddol.

1. Rheolau Sefydlog
2. Rheolau Ariannol
3. Côt Ymddygiad
4. Archwiliad Mewnol y Cyngor
5. Asesiadau Risg
6. Cofrestr Asedau
7. Polisi Cynllunio
8. Polisi Di-bapur
9. Polisi Iaith
10. Polisi Cydraddoldeb
11. Cynllun Hyfforddiant
12. Polisi Cyfryngau Cymdeithasol
13. Polisi Amgylcheddol
14. Polisi Iechyd a diogelwch
15. Polisi Datganiadau i'r Wasg

**Penderfynwyd** :- derbyn a chymeradwyo'r dogfennau i gyd yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng John Gwynedd Roberts yn eilio.

#### **Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Mai 14 2024**

**8.5.24 Presennol** :- Aled Griffith ( Cadeirydd); Sandra Bodden Jones; Dr Melfyn Edwards; Alwyn Gruffydd (Is-Gadeirydd); John Gwynedd Roberts; Carol Hayes; Gwilym Jones; Michael Roberts Marian Roberts ( Clerc)  
**Absennol** :- Cyng Llywelyn Rhys

**9.5.24 Ymddiheuriadau**:- Cyng Connor Westwood;

#### **10.5.24 Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod Llawn Ebrill 9 2024**

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng John Gwynedd Roberts yn eilio.

#### **Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo Ebrill 30 2024**

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

#### **11.5.24 Adroddiad y Clerc**

- Tîm Tacluso - wedi bod yn brysur yn ymateb i geisiadau gan y Clerc i glirio sbwriel o gyferbyn â Huws

Gray; wedi clirio dail oddiar y llwybr o Ffordd Penamser i fyny tuag at Stryd Dora; wedi trwsio mainc goncrit a gosod pren newydd ynddi ar y Cob Crwn. Mae lluniau wedi eu rhannu ar dudalen Facebook y Cyngor Tref.

- Bydd y tybiau blodau yn cael eu llenwi yn y dyddiau nesaf.
- Y Clerc wedi sicrhau bod y Cyfraniadau Ariannol i'r Urdd wedi cael eu rhannu'n gywir i goffrau Cylch Eifionydd a Chyfle i Bawb.
- Atgoffwyd y Cyngorwyr bod ffurflenni Datgan Diddordeb ar gael ar y bwrdd ymhob cyfarfod a bod angen eu llofnodi yn ystod y cyfarfod a bydd y Clerc yn llenwi'r wybodaeth briodol ynddynt wedyn.
- Allan o'r 16 Cyfraniad Ariannol a ranwyd, 12 sydd wedi cydnabod derbyn y siec gyda diolch.

#### **12.5.24 Datgan diddordeb.**

Dim datganiad o ddiddordeb.

#### **13.5.24. CEISIADAU CYNLLUNIO**

##### **(a) Rhif Cais C24/0253/44/AC ( wedi ebostio 7.4.24 )**

Lleoliad: Capel Seion, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9HT

Bwriad : Cais i ddiwygio amod 2 (dyluniad) ac amod 13 (llefydd parcio) ar ganiatad cynllunio

**Penderfynwyd :- GWRTHWYNEBU'R CAIS** am y rhesymau canlynol :-

- Mae'r or-ddatblygiad
- 'does dim digon o dir o amgylch ac o flaen y capel
- Pryderon am faniau contractwyr yn parcio ar y palmant
- Mynediad gwael i'r safle
- Rhy agos i safle bws

yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Michael Roberts yn eilio.

##### **(b) C12/1007/44/LL ( wedi ebostio 9.4.24 )**

Rhif Cais C24/0267/44/CC

Lleoliad: Greaves House, Plasplas Tan Yr Allt, Tremadog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9RG

Bwriad : Gwaith i goed.

**Penderfynwyd :- DIM GWRTHWYNEBIAD**

yn ôl cynnig Cyng Sandra Bodden Jones, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

##### **(c) Rhif Cais C24/0272/44/LL ( wedi ebostio 29.4.24 )**

Lleoliad: Tom Parry A'i Gwmni, Office, 4 - 5 Stryd Lombard, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9AP

Bwriad: Newid defnydd adeilad o ddefnydd siop ac uned byw yn 3 uned byw

**Penderfynwyd :- DIM GWRTHWYNEBIAD i dai preswyl yn unig ac NID Airbnb**

yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng John Gwynedd Roberts yn eilio.

##### **(ch) Math o Gais / Type of Application: (wedi ebostio 2.5.24)**

**Trwydded Eiddo / Premises Licence**

Enw'r Ymgeisydd / Name of Applicant:

Ms Sawitree Barber

Cyfeiriad post yr Eiddo neu Clwb / Postal Address of Premises or Club:

Thai Harbwr Cafe & Takeaway

115 Stryd Fawr, Porthmadog, LL49 9HA

Dyddiad Derbyn y Cais / Date Application Received: 01-05-2024

Sylwadau i'w dderbyn erbyn / Representations to be received by: 29-05-2024

**Penderfynwyd :- DIM GWRTHWYNEBIAD**

yn ôl cynnig Cyng Sandra Bodden Jones, Cyng Carol Hayes yn eilio.

#### **14.5.24. MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF**

- Diweddariad ar swydd y Clerc

Eglurodd y Clerc bod y Cyngor wedi hysbysebu swydd y Clerc ddwywaith ac wedi methu a chael neb i ymgymryd â'r dyletswyddau. Mae'r Cyngor wedi gofyn i'r cyn-Glerc, Marian Roberts, i ddechreio i'r swydd am ddeufis ac mae hithau wedi cytuno i barhau yn y swydd. Ynglyn â gorfod hysbysebu'r swydd unwaith yn rhagor – roedd y Clerc wedi derbyn cyngor cyfreithiol gan Mel ab Owain o Un Llais Cymru ac mae yntau wedi cadarnhau nad oes angen hysbysebu unwaith eto gan fod Marian Roberts yn fodlon parhau yn y swydd.

Gadawodd y Clerc y cyfarfod tra bu'r Cynghorwyr yn dod i benderfyniad.

Dychwelodd y Clerc i'r cyfarfod er mwyn cofnodi **penderfyniad y Cyngor** iddynt fod yn fodlon iddi barhau yn y swydd.

## **MATERION I'W DWYN GERBRON :-**

**Cymerodd yr Is-Gadeirydd, Cyng John Gwynedd Roberts, y gadair i lywyddu'r cyfarfod yn ystod trafodaethau ar gynigion y Cadeirydd, Cyng Aled Griffith.**

**15.5.24 Cyng Aled Griffith** – cynnig cwyno am lefydd parcio bysus sydd wedi dwyn llywydd parcio ceir wrth Ganolfan Byw'n Iach, Glaslyn.

**Penderfynwyd:-** cyn gweithredu ymhellach, y Clerc i wirio os gyrrwyd cŵyn cyffelyb yn y 6 mis diwethaf.

**16.5.24 Cyng Aled Griffith** – cynnig penderfynu ar ffordd i longyfarch Medi Harris ar ei llwyddiant yn cael ei dewis i'r tîm nofio Olympaidd.

Clywyd fel y bu bwriad i roi gwobr o waith Bill Swann i Medi Harris pan gafodd ei dewis i gynrychioli Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad ond na weithredwyd ar hyn. Cytunwyd y dylid ei llongyfarch drwy roi rhodd iddi ar ei champ yn cyrraedd y Tîm Nofio Olympaidd.

**Penderfynwyd :-** y Clerc i ail-edrych ar fanylion yr ymholiad gwreiddiol am waith celf gan Bill Swann ac i rannu gwybodaeth efo'r Cyngor er mwyn dewis darn priodol, yn ôl cynnig Cyng Sandra Bodden Jones, Cyng Michael Roberts yn eilio. **Penderfynwyd** hefyd i ysgrifennu llythyr ati yn ei llongyfarch ac i ddymuno pob llwyddiant iddi yn y Gemau Olympaidd yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

**Dychwelodd y Cadeirydd i gadeirio'r cyfarfod.**

**17.5.24 Cyng Dr Melfyn Edwards** – cynnig gofyn am ddiweddariad ar sefyllfa Cors Borth y Gest.

Clywyd fel yr oedd sbwriel a gwastraff adeiladu yn parhau i gael ei gario i Gors Borth y Gest er gwaetha'r pryderon blaenorol a gyfeirwyd gan y Cyngor Tref i asantiaethau perthnasol.

**Penderfynwyd** gweithredu ar gynnig Cyng Dr Melfyn Edwards gan yrru llythyr yn mynegi gofidiau'r Cyngor Tref i Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd; Pennaeth Adran Gorfodaeth Cyngor Gwynedd ac at Liz Saville Roberts, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

**18.5.24 Cyng Dr Melfyn Edwards** – cynnig penderfynu ar gyfraniad y Cyngor Tref i ddathliadau Nadolig 2024 ( gweler Gohebiaeth 13, ail ddyfynbris R.J.Electrics)

Cafwyd trafodaeth hir ynglyn â chostau goleuadau Nadolig. Nodwyd y byddai'r Cyngor Tref yn gwario tua £12,000 eleni ar brynu 12 golau newydd ar y lampau stryd; trwsio goleuadau presennol; goleuadau newydd ar un o goed allanol y Parc heb sôn am gostau'r coed Nadolig; talu i staff Gwynedd am osod a thynnu'r coed; talu i drydanwr lleol am osod a thynnu'r golau ar y coed Nadolig a chostau trydanwyr R.J.Electrics am osod a thynnu a gwirio'r goleuadau i gyd. Clywyd fel yr oedd gwariant blynyddol Nadolig y Cyngor Tref fel arfer uddeutu £14,000.00.

Nodwyd bod digwyddiadau Nadolig eraill wedi digwydd tua'r un amser â noson goleuo Port yllynedd a chytunwyd y dylid cael gwell cydweithio er mwyn trefnu un digwyddiad mawr ar y cyd ar gyfer eleni.

**Penderfynwyd :-** mynd ymlaen i wario'r £12,000 ar oleuadau newydd yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Michael Roberts yn eilio.

**Penderfynwyd :-** holi os oes digwyddiadau eraill ar y gweill eleni cyn trefnu i gydweithio gyda'r trefnwyr eraill er mwyn cynnal un digwyddiad mawr ar y cyd yn ôl cynnig Cyng Sandra Bodden Jones, Cyng Carol Hayes yn eilio.

**19.5.24 Cyng Alwyn Gruffydd** – cynnig cwyno am ddirwyon parcio uniaith Saesneg gan y cwmni sy'n rheoli'r sistem barcio yn Y Ganolfan.

**Penderfynwyd:-** gweithredu ar gynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Carol Hayes yn eilio.

**20.5.24 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dyddiad cau Rhaglen Mehefin 11 2024 = Mehefin 1 2024 , ( Rheolau Sefydlog 8.1 “ o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor”.)**

- **Cyng Alwyn Gruffydd** - Cynnig ysgrifennu at Trafnidiaeth Cymru i gwyno am y newidiadau i wasanaeth bysiau T2
- **Cyng Sandra Bodden Jones** – Cynnig gosod amodau ar y Ceisiadau Ariannol, fel bod y sawl sy'n derbyn cyfraniad yn gorfod anfon tystiolaeth (ffotograffig neu dderbyneb) i'r Cyngor o fewn 12 mis i dderbyn yr arian i ddangos bod yr arian wedi cael ei ddefnyddio i'r pwrpas y gwnaethpwyd cais amdano.

**21.5.24. Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth.

## **GOHEBIAETH :**

**22.5.24, UN LLAIS CYMRU- Cynghorau Lleol**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth a gyrru llythyr i longyfarch Cyngor Tref Cricieth ar eu llwyddiant yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

**23.5.24, CYNGOR GWYNEDD, Ynys ar Heol Newydd Porthmadog**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth.

**24.5.24, CYFEILLION BORTH Y GEST, Cais i osod golau ar loches bws Borth y Gest**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i ddatgan bod y Cyngor Tref yn rhoi eu sêl bendith iddynt osod cyflenwad trydan a golau yn y lloches bws.

**25.5.24, CYNGOR GWYNEDD, Ymateb i 2203/2024 Cwyno am geir cwsmeriaid garej yn parcio ar hyd Madoc Street**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth

**26.5.24, CYNGOR GWYNEDD, Ymateb i gwyn am oleuadau traffig ar adegau prysur**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth

**27.5.24, UN LLAIS CYMRU- Cynhadledd Arfer Arloesol 3.7.24**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth

**28.5.24, COMISIYNYDD Y GYMRAEG, Cymeradwyo'r polisi iaith**

Bu trafodaeth frwd ar y mater hwn pan sylweddolwyd fod y Polisi Iaith dwyieithog newydd wedi cael ei dderbyn a'i gymeradwyo eisoes gan y Cyngor Tref yn 7.5.24 o'r Cyfarfod Blynnyddol. Yn anffodus nid oedd y mwyafrif o'r Cynghorwyr wedi ei ddarllen cyn penderfynu arno ac felly'n anymwybodol o'r newid yn y polisi o fod yn un dwyieithog yn hytrach nac unieithog Gymraeg. Roedd y llythyr gan y Comisiynydd Iaith yn cyfeirio at ac yn cymeradwyo'r polisi newydd dwyieithog.

**29.5.24, CYNGOR TREF NEFYN, Llythyr i gwyno am gynllun Cyngor Gwynedd i wario £1 milwn ar geir trydan**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth a nodi ei bod yn rhy hwyr i ymateb erbyn hyn.

**30.5.24, PATRICIA WARD, Cyfyngiad cyflymder 20m.y.a ar Lombard Street**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i egluro mai 20m.y.a yw'r cyfyngiad cyflymdra ar Stryd Lombard; nad oes posib rhoi "repeater signs" yno ac nad yw ychwaith o fewn gallu nac awdurdod y Cyngor Tref i newid y sefyllfa.

**31.5.24, DŴR CYMRU, Adroddiad am gyfarfod gyda Cyng Williams ar 22.4.24**

**Penderfynwyd** :- derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i ddiolch am yr adroddiad ac i ofyn yn garedig iddynt gysylltu efo'r Clerc yn uniongyrchol yn y dyfodol yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones.

**32.5.24, R.J.ELECTRICS, 2il ddyfynbris goleuadau Nadolig**

Wedi trafod eisoes yn 18.5.24.

**33.5.24. MATERION ARIANNOL :**

- **Cyfrifon 2023-2024**
- **Derbyn a chymeradwyo Adroddiad yr Archwilydd Mewnol a Ffurflen Flynyddol 2023-2024 ( copi ymghlwm )**

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a chymeradwyo Adroddiad yr Archwilydd Mewnol a Ffurflen Flynyddol 2023-2024 yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Gwilym Jones yn eilio.

**Derbyniadau :**

H.S.B.C.	Llog Banc Mawrth Ebrill 2024	£57.16
CYNGOR GWYNEDD	Ad-daliad torri llwybrau	£1064.50
CAE PAWB	Rhent 2024-2025	£460.00
FISHER GERMAN	Archwiliad Nat. Grid Cae Bodawen	£250.00
T.A.W.	Ad-daliad TAW 2023-24	£3,573.09

**34.5.24**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Michael Roberts, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio:-

1	Clerc	LLinell Ffôn a Wê Clerc Ebrill 2024	£ 68.45
2	Clerc	Cyflog Clerc Ebrill 2024	£1536.86
3	Cyllid a Thollau ei Fawrhydi	Treth Incwm cyflog Clerc Ebrill 2024	£386.46
4	Clerc	Ad-daliad am 20 x stamp 2il ddsbarth	£17.00
5	Clerc	Ad-daliad am flwch llythyrau i'r swyddfa	£25.99
6	Clerc	Ad-daliad am danysgrifiad Teams 2024-25	£70.56
7	Y Ganolfan	Clwb Ieuenctid o 23.1.24 i 6.2.24	£152.50
8	Cyfoeth Naturiol Cymru	Draenio blynyddol Cae Pawb	£5.56
9	Defib Store Ltd	Batri newydd i Defib Lidl a Chapel Street	£504.00
10	Cricieth Cleaning	Glanhau llochesi bws 22.1.24 a 30.4.24	£403.20
11	SLCC	Tâl aelodaeth 2024-25	£244.00

( Mae copi o bob sic ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Daeth y cyfarfod i ben am 20.35.

Marian Roberts  
( Clerc )  
17.5.24